Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English | Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Ystadegau Medr

# Myfyrwyr mewn Addysg Uwch, 2024/25

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/01/2026 |
| **Dyddiad:** | 29 Ionawr 2026 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol (gweler y newid i statws ystadegau achrededig) |
| **E-bost:** | YstadegauAU@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | Ystadegau ar ymrestriadau mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru, ac ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio mewn darparwyr addysg uwch ledled y DU |
| **Thema:** | Addysg Uwch |
| **Ffynhonnell:** | Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Prif bwyntiau

**Ymrestriadau mewn darparwyr addysg uwch (AU) yng Nghymru**

- Cafwyd 143,825 o ymrestriadau mewn darparwyr AU yng Nghymru yn 2024/25, 5% yn llai na'r 150,680 a gafwyd yn 2023/24. Mewn cymhariaeth, ar gyfer darparwyr AU ledled y DU, gostyngodd nifer yr ymrestriadau 1% yn 2024/25 o gymharu â 2023/24
- Yn 2024/25 cafwyd 32,070 o ymrestriadau ôl-radd mewn darparwyr AU yng Nghymru. Roedd hyn yn ostyngiad o 19% gymharu â 2023/24 pan gafwyd 39,360 o ymrestriadau ôl-radd. Gostyngiad yn nifer yr ymrestriadau gan fyfyrwyr o'r tu allan o'r DU ar gyrsiau ôl-radd a addysgir oedd i gyfrif am y rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn.
- Yn 2024/25 cafwyd 111,755 o ymrestriadau ar lefel israddedig. Roedd hyn yn wahaniaeth o lai nag 1% o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol a 6% yn uwch nag yn 2016/17.
- Roedd 48% o'r ymrestriadau mewn darparwyr AU yng Nghymru yn fyfyrwyr oedd â'u cyfeiriad parhaol yng Nghymru cyn dechrau astudio. Roedd 37% o'r ymrestriadau yn 2024/25 yn fyfyrwyr o weddill y DU, ac 15% o'r tu allan i'r DU.
- Mae cyfran yr ymrestriadau gan fyfyrwyr y gwyddys bod ganddynt anabledd wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Roedd 22% o'r ymrestriadau yn 2024/25 yn fyfyrwyr y gwyddys bod ganddynt anabledd.
- O'r ymrestriadau gan fyfyrwyr o'r DU lle'r oedd y cefndir ethnig yn hysbys, roedd 17% o'r ymrestriadau gan fyfyrwyr a chefndir lleiafrifol ethnig yn 2024/25. Mae'r gyfran hon wedi bod yn cynyddu'n gyson o'r naill flwyddyn i'r nesaf.
- Arweiniodd 52,685 o ymrestriadau gan fyfyrwyr at ennill cymhwyster yn 2024/25. Roedd hyn yn gynnydd o 5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Enillodd 29% o fyfyrwyr gradd gyntaf radd anrhydedd dosbarth cyntaf yn 2024/25. Roedd hyn ddau bwynt canran yn uwch nag yn 2023/24.

**Ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru mewn darparwyr AU ledled y DU**

- Cafwyd 103,060 o ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru mewn darparwyr AU ledled y DU yn 2024/25. Roedd hyn yn debyg i'r 103,205 o ymrestriadau yn 2023/24.
- Roedd bron i un o bob tri ymrestriad gan fyfyrwyr o Gymru mewn darparwyr AU y tu allan i Gymru yn 2024/25.
- Mae cyfrannau cynyddol o ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru yn rhai gan fyfyrwyr y gwyddys bod ganddynt anabledd. Roedd 25% o ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru yn 2024/25 yn ymrestriadau gan fyfyrwyr y gwyddys bod ganddynt anabledd.
- Mae cyfrannau cynyddol o ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru yn rhai gan fyfyrwyr o gefndir lleiafrifol ethnig. Roedd 12% o ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru yn 2024/25 yn fyfyrwyr o gefndir lleiafrifol ethnig.
- Yn 2024/25, roedd 17% o ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru ar gyrsiau gradd amser llawn o'r cwintel mwyaf amddifadus ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC 2019), o gymharu â 26% o'r cwintel lleiaf amddifadus. Mae'r ffaith bod niferoedd llawer uwch o ymrestriadau gan fyfyrwyr o ardaloedd â llai o amddifadedd

mewn darparwyr AU y tu allan i Gymru, o gymharu â'r rhai o ardaloedd â mwy o amddifadedd yn egluro hyn.

- Arweiniodd 31,090 o ymrestriadau ledled y DU gan fyfyrwyr o Gymru at ennill cymhwyster yn 2024/25. Roedd hyn yn gynnydd o 5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

# Cynnwys

Prif bwyntiau ..... 1
Nodyn ynghylch ansawdd ..... 4
Data ..... 4
Nifer yr ymrestriadau mewn darparwyr addysg uwch (AU) yng Nghymru ..... 5
Pynciau a astudiwyd ..... 6
Nodweddion myfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru ..... 8
O ble y daw myfyrwyr ..... 8
Rhyw ..... 9
Anabledd ..... 9
Ethnigrwydd ..... 10
Y Gymraeg ..... 10
Nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sydd wedi ymrestru mewn darparwyr addysg uwch ledled y DU ..... 11
Llif myfyrwyr ar draws ffiniau ..... 12
Nodweddion myfyrwyr o Gymru sydd wedi ymrestru mewn darparwyr addysg uwch ledled y DU ..... 13
Rhyw ..... 13
Anabledd ..... 13
Ethnigrwydd ..... 14
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ..... 14
Cymwysterau a enillwyd ..... 17
Cymwysterau a enillwyd mewn darparwyr AU yng Nghymru ..... 17
Dosbarthiadau gradd gyntaf a ddyfarnwyd gan ddarparwyr AU yng Nghymru ..... 17
Cymwysterau a enillwyd gan fyfyrwyr o Gymru mewn darparwyr AU ledled y DU ..... 19
Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg ..... 20
Ffynhonnell y data ..... 20
Cwmpas ..... 20
Diffiniadau ..... 21
Talgrynnu ..... 22
Ystadegau cysylltiedig ..... 22
Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ..... 22
Gwybodaeth Gyswllt ..... 24

## Nodyn ynghylch ansawdd

Ffynhonnell y data yn yr adroddiad hwn yw cofnod myfyrwyr HESA a gesglir gan Jisc.

Mae cofnod myfyrwyr HESA wedi cael ei gasglu ers 1994/95 gan ddarparwyr addysg uwch sy'n rhan o'r cynllun ar draws gweinyddiaethau datganoledig y Deyrnas Unedig. 2024/25 oedd y drydedd flwyddyn o ddefnyddio system model a chasglu data newydd, a gyflwynwyd yn 2022/23. Achoswyd sawl her gan y model newydd, a golygai fod nifer fwy o broblemau'n gysylltiedig ag ansawdd data yn dilyn y newidiadau. Er enghraifft, niferoedd cynyddol o gofnodion anhysbys ar gyfer rhai newidynnau.

Ar gyfer data 2022/23 a 2023/24, asesodd Jisc ansawdd y data i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio ymhellach. Asesiad cyffredinol Jisc oedd bod y data yn addas i'w defnyddio yn yr ystadegau swyddogol maen nhw'n eu cynhyrchu. Gan fod yr adroddiad hwn yn defnyddio'r un data ag a ddefnyddir gan Jisc yn eu hystadegau swyddogol, mae'n addas at y diben yn yr un modd. Esbonnir sut mae Jisc yn asesu ansawdd data cofnod myfyrwyr HESA ar dudalen Adroddiad Ansawdd Cofnod Myfyrwyr ar wefan HESA.

Yn 2024/25 bu gwelliannau parhaus i ansawdd y data sy'n golygu nad yw Jisc bellach yn teimlo ei bod yn angenrheidiol llunio adroddiad ansawdd llawn, er y gellir cael hyd i restr o nodiadau a materion manwl yn adnodd ansawdd a mewnwelediadau data Jisc (lle trafodir Cofnod Myfyrwyr 2024/25 yn y casgliad '24056 Student Record').

## Data

Gellir cael hyd i'r data ar gyfer y siartiau yn yr adroddiad hwn yn y daenlen gysylltiedig ar medr.cymru.

Mae'r data, gan gynnwys dadansoddiadau mwy manwl fel gwybodaeth ar lefel darparydd ar gyfer darparwyr AU Cymru, ar gael ar StatsCymru:


- Ymrestriadau myfyrwyr a chymwysedigion mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru yn ôl nodweddion personol
- Ymrestriadau myfyrwyr a chymwysedigion mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru yn ôl pwnc
- Ymrestriadau myfyrwyr a chymwysedigion mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru yn ôl gwlad y cyfeiriad parhaol wrth ddechrau'r cwrs
- Ymrestriadau myfyrwyr a nifer y cymwysedigion o Gymru mewn darparwyr addysg uwch ledled y DU yn ôl nodweddion personol
- Ymrestriadau myfyrwyr a nifer y cymwysedigion o Gymru mewn darparwyr addysg uwch ledled y DU yn ôl pwnc

Ceir data ychwanegol ar wefan Data Agored HESA.

# Nifer yr ymrestriadau mewn darparwyr addysg uwch (AU) yng Nghymru

**Gostyngodd niferoedd yr ymrestriadau am ail flwyddyn yn 2024/25 yn dilyn sawl blwyddyn o gynnydd.**

Ffigur 1: Nifer yr ymrestriadau mewn darparwyr AU yng Nghymru yn ôl lefel, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 1 ar y daenlen atodol.


Cafwyd 143,825 o ymrestriadau mewn darparwyr AU yng Nghymru yn 2024/25, 5% yn llai na'r 150,680 a gafwyd yn 2023/24. Roedd hyn yn dilyn cyfnod hir o gynnydd yn nifer yr ymrestriadau, sy'n golygu bod cyfanswm yr ymrestriadau yn 2024/25 yn dal i fod 11% yn uwch nag yn 2016/17. Mewn cymhariaeth, ar gyfer darparwyr AU ledled y DU, gostyngodd nifer yr ymrestriadau 1% yn 2024/25 o gymharu â 2023/24, ond roeddent 20% yn uwch nag yn 2016/17.

Newidiadau yn nifer yr ymrestriadau ôl-radd fu'r ffactor mwyaf yn y newid i gyfanswm yr ymrestriadau. Yn 2024/25 cafwyd 32,070 o ymrestriadau ôl-radd mewn darparwyr AU yng Nghymru. Roedd hyn yn ostyngiad o 19% gymharu â 2023/24 pan gafwyd 39,360 o ymrestriadau ôl-radd. Roedd y rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn yn deillio o ostyngiad mewn ymrestriadau ar gyrsiau ôl-radd a addysgir gan fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU. Er gwaethaf y gostyngiadau yn y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd nifer yr ymrestriadau ôl-radd yn 2024/25 yn dal i fod 32% yn uwch nag yn 2016/17.

Mae nifer yr ymrestriadau israddedig wedi bod yn fwy sefydlog. Yn 2024/25 cafwyd 111,755 o ymrestriadau ar lefel israddedig. Roedd hyn yn wahaniaeth o lai nag 1% o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol a 6% yn uwch nag yn 2016/17.

**Mae cyfran fwy o ymrestriadau ôl-radd yn rhan-amser nag ymrestriadau israddedig**

Ffigur 2: Cyfran yr ymrestriadau gan fyfyrwyr mewn darparwyr AU yng Nghymru sy'n rhan-amser yn ôl lefel, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 2 ar y daenlen atodol.

Roedd 41% o ymrestriadau ôl-radd yn rhan-amser yn 2024/25 o gymharu â 25% o israddedigion.

Yn 2024/25, gwelwyd cynnydd sydyn yng nghyfran y myfyrwyr ôl-radd sy'n astudio'n rhan-amser er gwaethaf y gostyngiad yn nifer yr ymrestriadau ôl-radd rhan-amser. Mae hyn yn gysylltiedig â'r gostyngiad yn nifer yr ymrestriadau ôl-radd gan fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU a oedd yn astudio'n amser llawn yn bennaf.

## Pynciau a astudiwyd


Mae'r pynciau a astudiwyd gan fyfyrwyr wedi'u grwpio drwy [Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin]() HESA.

Pan fo'r ymrestriad ar gwrs sy'n cynnwys un neu fwy o bynciau, caiff yr ymrestriad ei rannu rhwng grwpiau. Er enghraifft, os yw myfyriwr yn astudio cwrs Mathemateg a Ffrangeg ar y cyd, bydd 0.5 yr ymrestriad yn ymddangos yn erbyn y gwyddorau Mathemategol a 0.5 yn erbyn Astudiaethau iaith ac ardal.

Mae CAH26 (Astudiaethau daearyddol ac amgylcheddol) wedi'i rannu fel bod CAH26-01-03 (Daearyddiaeth ddynol) yn cael ei gyflwyno fel 'Astudiaethau daearyddol ac amgylcheddol (gwyddorau cymdeithasol)' o fewn y grŵp 'Anwyddonol'. Cyflwynir pob cod lefel 3 CAH arall o fewn CAH26 yn y grŵp gwyddoniaeth o'r enw 'Astudiaethau daearyddol ac amgylcheddol (gwyddorau naturiol)'.

### Busnes a rheolaeth yw'r pwnc gyda'r nifer fwyaf o ymrestriadau

Ffigur 3: Nifer yr ymrestriadau mewn darparwyr AU yng Nghymru yn ôl grŵp pwnc a rhyw, 2024/25




Data yn Nhabl 3 ar y daenlen atodol.

Busnes a rheolaeth oedd y grŵp pwnc â'r nifer uchaf o ymrestriadau mewn darparwyr AU yng Nghymru, gyda 21,415 o ymrestriadau (15% o'r cyfanswm). Dyma hefyd oedd y pwnc â'r nifer fwyaf o ymrestriadau ar lefel israddedig ac ôl-radd.

# Nodweddion myfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru


## O ble y daw myfyrwyr

Yn y datganiad hwn, mae myfyrwyr sydd â chyfeiriad parhaol yn Guernsey, Jersey neu Ynys Manaw wedi'u cynnwys fel rhai 'Gweddill y DU' i gyd-fynd â'r modd y mae HESA yn dadansoddi'r data.

Ar ôl cyflwyno'r model data newydd ar gyfer cofnod myfyrwyr HESA yn 2022/23, cynyddodd nifer yr ymrestriadau mewn darparwyr AU yng Nghymru lle bo cyfeiriad parhaol y myfyriwr yn anhysbys i 0.3% (475 o ymrestriadau) yn 2022/23, 1.2% (1,845 o ymrestriadau) yn 2023/24 a 0.2% (355 o ymrestriadau) yn 2024/25. Cyn hyn roedd y gyfran yn agos at sero. Disgwylir y bydd cyfran y cofnodion anhysbys yn lleihau yn y dyfodol.

**Myfyrwyr o Gymru sydd i gyfrif am lai na hanner yr ymrestriadau ers 2022/23**

Ffigur 4: Cyfran yr ymrestriadau mewn darparwyr AU yng Nghymru yn ôl cyfeiriad parhaol y myfyriwr cyn dechrau ei gwrs, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 4a ar y daenlen gysylltiedig.

Yn 2024/25 cafwyd 69,220 o ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru mewn darparwyr AU yng Nghymru. Roedd hyn i gyfrif am 48% o'r holl ymrestriadau. Cynnydd bach oedd hyn yn nifer yr ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru o gymharu â'r flwyddyn gynt, gyda chynnydd mwy i'r gyfran yn deillio o'r gostyngiad mewn ymrestriadau gan fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU.

Mae nifer a chyfran y myfyrwyr o weddill y DU mewn darparwyr AU yng Nghymru wedi cynyddu ers 2018/19, o 41,530 i 53,250, neu o 31% i 37%.

Bu cynnydd yn nifer a chyfran yr ymrestriadau gan fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU rhwng 2020/21 a 2022/23, gan gynyddu o 21,565 o ymrestriadau i 28,710 o ymrestriadau. Fodd bynnag, mae hyn wedi gwrthdroi dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac fe gafwyd 20,935 o ymrestriadau gan fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU yn 2024/25, a oedd i gyfrif am 15% o'r holl ymrestriadau yn 2024/25 o gymharu ag 18% yn 2023/24.


## Rhyw

Roedd 56.8% o'r ymrestriadau mewn darparwyr AU yng Nghymru yn 2024/25 yn ymrestriadau gan fenywod. Mae'r gyfran hon wedi bod rhwng 56% a 57% bob blwyddyn ers 2018/19.

## Anabledd

### Mae cyfran yr ymrestriadau lle gwyddys bod gan y myfyriwr anabledd wedi bod yn cynyddu'n gyson

Ffigur 5: Cyfran yr ymrestriadau gan fyfyrwyr mewn darparwyr AU yng Nghymru lle gwyddys bod gan y myfyriwr anabledd, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 5a ar y daenlen gysylltiedig.

Roedd 22% o'r ymrestriadau mewn darparwyr AU yng Nghymru yn 2024/25 yn fyfyrwyr y gwyddys bod ganddynt anabledd. Roedd hwn yn gynnydd o ddau bwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan barhau â'r duedd dros y blynyddoedd diwethaf.


## Ethnigrwydd

Dim ond ar gyfer myfyrwyr y mae eu cyfeiriad parhaol yn y DU, Guernsey, Jersey neu Ynys Manaw cyn dechrau astudio y cesglir gwybodaeth am ethnigrwydd. Felly dim ond at y myfyrwyr hynny y mae'r adran hon yn cyfeirio.

Cyfrifir y canrannau yn yr adran hon ar ôl eithrio ymrestriadau gan fyfyrwyr y mae eu cefndir ethnig yn anhysbys. O 2017/18 i 2021/22, roedd cofnodion ethnigrwydd yn anhysbys ymhlith rhwng 1.4% ac 1.7% o ymrestriadau gan fyfyrwyr o'r DU mewn darparwyr AU yng Nghymru. Cododd y gyfran o gofnodion anhysbys i 2.1% yn 2022/23 a 2.9% yn 2023/24 a 2024/25 ar ôl cyflwyno model data newydd ar gyfer cofnod myfyrwyr HESA.

**Mae amrywiaeth ethnig ymrestriadau gan fyfyrwyr o'r DU wedi cynyddu'n gyson**

Ffigur 6: Cyfran yr ymrestriadau gan fyfyrwyr o'r DU mewn darparwyr AU yng Nghymru yn ôl cefndir ethnig, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 6b ar y daenlen gysylltiedig.

O blith myfyrwyr o'r DU y mae eu hethnigrwydd yn hysbys mewn darparwyr AU yng Nghymru, roedd 17% o'r ymrestriadau yn 2024/25 yn fyfyrwyr o gefndir lleiafrifol ethnig. Roedd hyn yn gynnydd o 16% yn 2023/24 a 10% yn 2016/17.

Bu cynnydd ym mhob un o'r pedwar grŵp cefndir ethnig lefel uchel.

## Y Gymraeg

Cyhoeddir gwybodaeth am allu myfyrwyr yn y Gymraeg a nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mlwyddyn academaidd 2024/25 mewn cyhoeddiad ar wahân yn haf 2026.


Mae data ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/24 ar gael yng nghyhoeddiad Y Gymraeg mewn Addysg Uwch.

## Nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sydd wedi ymrestru mewn darparwyr addysg uwch ledled y DU

Yn yr adroddiad hwn, mae myfyriwr yn dod o Gymru os oedd ei gyfeiriad parhaol cyn dechrau ei gwrs yng Nghymru.

**Mae nifer yr ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru wedi bod yn gostwng ers 2020/21**

Ffigur 7: Nifer yr ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru darparwyr AU ledled y DU yn ôl dull a lefel, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 7 ar y daenlen atodol.

Cafwyd 103,060 o ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru mewn darparwyr AU ledled y DU yn 2024/25. Roedd hyn yn debyg i'r 103,205 o ymrestriadau yn 2023/24 a 7% yn is na'r uchafbwynt o 110,385 o ymrestriadau yn 2020/21.


Roedd 83,870 o'r ymrestriadau yn 2024/25 ar lefel israddedig. Roedd hyn yn gynnydd o lai nag 1% o 2023/24 yn dilyn gostyngiad o 2020/21. Ceir gwahaniaethau o ran y duedd am ymrestriadau israddedigion llawn amser a rhan-amser, gydag ymrestriadau amser llawn yn gostwng bob blwyddyn ers 2020/21 ac ymrestriadau rhan-amser yn cynyddu bob blwyddyn ers 2017/18.

Ar lefel ôl-radd cafwyd 19,190 o ymrestriadau yn 2024/25. Roedd hyn yn ostyngiad o 3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac yn ostyngiad o 17% ers 2021/22 pan ddechreuodd y

niferoedd ostwng. Bu gostyngiadau o ran ymrestriadau amser llawn a rhan-amser, er y bu'r gostyngiadau hynny'n fwy yn achos cyrsiau amser llawn.

### Mae cyfran fwy o fyfyrwyr o Gymru yn astudio mewn darparwyr AU yng ngweddill y DU nag yn y blynyddoedd blaenorol

Ffigur 8: Cyfran yr ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru mewn darparwyr AU yn rhannau eraill o'r DU yn ôl dull a lefel, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 8 ar y daenlen atodol.

Roedd bron i un o bob tri ymrestriad gan fyfyrwyr o Gymru yn 2024/25 mewn darparwyr AU yng ngweddill y DU.

Ar gyfer pob cyfuniad o ddull a lefel, cyfran y myfyrwyr o Gymru a oedd yn astudio yn rhannau eraill y DU yn 2024/25 oedd:

- 43% ar gyfer israddedigion amser llawn.
- 41% ar gyfer ôl-raddedigion amser llawn.
- 7% ar gyfer israddedigion rhan-amser.
- 36% ar gyfer ôl-raddedigion rhan-amser.

## Llif myfyrwyr ar draws ffiniau

Mae Cymru yn fewnforiwr net myfyrwyr o weddill y DU. Yn 2024/25, roedd 53,250 o fyfyrwyr o weddill y DU yn astudio yng Nghymru o'i gymharu â 33,840 o fyfyrwyr o Gymru a oedd yn astudio mewn darparwyr AU yng ngweddill y DU - gwahaniaeth o 19,410.

Mae maint y gwahaniaeth hwn wedi cynyddu bob blwyddyn o 2017/18 pan astudiodd 9,000 yn fwy o fyfyrwyr o weddill y DU yng Nghymru na'r rhai a oedd yn mynd i'r cyfeiriad arall.

## Nodweddion myfyrwyr o Gymru sydd wedi ymrestru mewn darparwyr addysg uwch ledled y DU


### Rhyw

Myfyrwyr benywaidd oedd 62% o ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru yn 2023/24. Mae'r gyfran hon wedi bod yn cynyddu rhyw fymryn o flwyddyn i flwyddyn, ar ôl cyrraedd 59% yn 2016/17.

### Anabledd

**Mae cyfran yr ymrestriadau lle gwyddys bod gan y myfyriwr anabledd wedi bod yn cynyddu'n gyson**

Ffigur 9: Cyfran yr ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru mewn darparwyr AU ledled y DU lle gwyddys bod gan y myfyriwr anabledd, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 9b ar y daenlen gysylltiedig.

Myfyrwyr ag anabledd hysbys oedd i gyfrif am un o bob pedwar ymrestriad yn 2024/25. Roedd hyn yn gynnydd o 23% yn y flwyddyn flaenorol ac mae'r ganran wedi bod yn cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf.


## Ethnigrwydd

Dim ond ar gyfer myfyrwyr y mae eu cyfeiriad parhaol yn y DU, Guernsey, Jersey neu Ynys Manaw cyn dechrau astudio y cesglir gwybodaeth am ethnigrwydd. Felly dim ond at y myfyrwyr hynny y mae'r adran hon yn cyfeirio.

Cyfrifir y canrannau yn yr adran hon ar ôl eithrio ymrestriadau gan fyfyrwyr y mae eu cefndir ethnig yn anhysbys. O 2017/18 i 2021/22, roedd cofnodion ethnigrwydd yn anhysbys ymhlith rhwng 1.4% ac 1.7% o ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru mewn darparwyr AU ledled y DU. Cynyddodd cyfran y cofnodion anhysbys i 2.5% yn 2022/23, 2.2% yn 2023/24 a 2.3% yn 2024/25 ar ôl cyflwyno model data newydd ar gyfer cofnod myfyrwyr HESA.

### Mae cyfran y myfyrwyr o Gymru sydd â chefndir lleiafrifol ethnig wedi bod yn cynyddu

Ffigur 10: Cyfran y myfyrwyr o Gymru sydd wedi cofrestru mewn darparwyr AU ledled y DU yn ôl cefndir ethnig, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 10b ar y daenlen gysylltiedig.

O blith myfyrwyr o Gymru y mae eu hethnigrwydd yn hysbys, roedd 12% o'r ymrestriadau yn 2024/25 yn fyfyrwyr o gefndir lleiafrifol ethnig. Roedd hyn yn gynnydd o 11% yn 2023/24 ac 8% yn 2016/17.

Bu cynnydd ym mhob un o'r pedwar grŵp cefndir ethnig lefel uchel.

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru


Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r dull swyddogol o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bychain yng Nghymru. Fe'i cynlluniwyd i nodi'r ardaloedd bach

hynny lle mae'r crynoadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae'r ardaloedd bach hyn wedi cael eu rhestru, yn ôl MALIC 2019, a'u grwpio'n ddegraddau. Defnyddir cod post cyfeiriad parhaol myfyriwr cyn dechrau ei astudiaethau i nodi ei gwintel MALIC. Nid yw'r dull hwn o fesur amddifadedd yn seiliedig ar amddifadedd y dysgwr yn benodol. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt eu hunain yn profi amddifadedd yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd, ac fel arall. Nid oes modd priodoli cyfran fechan o ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru i gwintel MALIC lle bo gwybodaeth am y cod post yn anghywir, yn anghyflawn neu ar goll.

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar fyfyrwyr israddedig amser llawn i archwilio'r berthynas rhwng yr ardal y mae rhywun yn dod ohoni a mynediad i addysg uwch.

**Cafwyd nifer cyson uwch o ymrestriadau ar gyrsiau gradd amser llawn gan fyfyrwyr o ardaloedd â llai o amddifadedd yng Nghymru**

Ffigur 11: Nifer yr ymrestriadau ar gyrsiau gradd amser llawn gan fyfyrwyr o Gymru mewn darparwyr AU ledled y DU yn ôl Cwintel MALIC, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 11 ar y daenlen atodol.


Yn 2024/25, cafwyd 9,570 o ymrestriadau ar gyrsiau gradd amser llawn gan fyfyrwyr o'r 20% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru, ar sail MALIC 2019. Roedd hyn yn cynrychioli 17% o'r holl ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru ar gyrsiau gradd amser llawn, o gymharu â'r 26% o ymrestriadau o ardaloedd yng nghwintel lleiaf amddifadus Cymru.

Mae'r gwahaniaeth yn nifer yr ymrestriadau gan fyfyrwyr o ardaloedd yng nghwintel cyntaf, ac yn ail a thrydydd cwintel MALIC 2019 wedi culhau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn 2024/25 roedd mwy ymrestriadau gan fyfyrwyr o ardaloedd yng nghwintel mwyaf amddifadus MALIC ar gyrsiau gradd amser llawn na myfyrwyr o'r ail gwintel mwyaf amddifadus.

Mae cyfran y myfyrwyr israddedig amser llawn sy'n dod o ardaloedd yng nghwintel lleiaf amddifadus MALIC wedi cynyddu rhyw fymryn dros y blynyddoedd diwethaf, gan nad yw nifer yr ymrestriadau gan fyfyrwyr o'r cwintel hwn wedi gostwng i'r un graddau â'r niferoedd yn y cwintelau eraill.

**Mae'r gwahaniaethau rhwng niferoedd ymrestru myfyrwyr ar gyrsiau gradd amser llawn o bob cwintel MALIC yn cael eu hysgogi'n bennaf gan ymrestriadau mewn darparwyr AU y tu allan i Gymru**

Ffigur 12: Nifer yr ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru ar gyrsiau gradd amser llawn yn ôl Cwintel MALIC a gwlad y darparydd AU, 2024/25




Data yn Nhabl 12 ar y daenlen atodol.

Roedd nifer ymrestriadau ar gyrsiau gradd amser llawn mewn darparwyr AU yng Nghymru yn 2024/25 yn weddol wastad ar draws y cwintelau MALIC.

Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau mawr yn nifer yr ymrestriadau ar gyrsiau gradd amser llawn o bob cwintel MALIC mewn darparwyr AU yng ngweddill y DU. Cafwyd 2,855 o ymrestriadau o'r 20% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru mewn darparwyr AU yng ngweddill y DU, o gymharu ag 8,025 o'r 20% o ardaloedd lleiaf amddifadus.

I fyfyrwyr o'r 20% o ardaloedd lleiaf amddifadus yn 2024/25, ymrestrodd mwy o fyfyrwyr ar gyrsiau gradd amser llawn mewn darparwyr AU y tu allan i Gymru na darparwyr AU yng Nghymru.


## Cymwysterau a enillwyd

Yn yr adran hon edrychir ar nifer yr ymrestriadau gan fyfyrwyr a arweiniodd at ennill cymhwyster addysg uwch yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau a ddyfarnwyd i'r rhai a oedd wedi cymryd saib o'u hastudiaethau, ar ôl i astudiaethau gweithredol ddod i ben, a rhai a oedd yn barod i ysgrifennu am eu gwaith ymchwil.

### Cymwysterau a enillwyd mewn darparwyr AU yng Nghymru

**Mae nifer y cymwysterau a enillwyd gan ddarparwyr AU yng Nghymru wedi cynyddu**

Ffigur 13: Nifer y cymwysterau a enillwyd mewn darparwyr AU yng Nghymru yn ôl lefel, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 13 ar y daenlen atodol.


Arweiniodd 52,685 o ymrestriadau gan fyfyrwyr at ennill cymhwyster yn 2024/25; sy'n gynnydd o 5% o gymharu â'r flwyddyn gynt. Mae nifer y cymwysterau a enillwyd wedi cynyddu 31% ers 2019/20. Roedd hyn yn deillio'n bennaf o'r cynnydd mewn cymwysterau ôl-radd hyd 2024/25, pan ostyngodd nifer y cymwysterau ôl-radd rhyw fymryn o gymharu â'r flwyddyn gynt, ond lle cafwyd cynnydd o 11% yn nifer y cymwysterau israddedig.

### Dosbarthiadau gradd gyntaf a ddyfarnwyd gan ddarparwyr AU yng Nghymru

Nid yw graddau di-ddosbarth wedi'u cynnwys yn yr adran hon. Mae'r rhain yn cynnwys graddau meddygol a chyffredinol, graddau cyffredin, a chymwysterau aegrotat na ddyfernir dosbarth iddynt.

**Bu cynnydd yng nghyfran y myfyrwyr gradd gyntaf y dyfarnwyd gradd anrhydedd dosbarth cyntaf iddynt mewn darparwyr AU yng Nghymru yn 2024/25 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol**

Ffigur 14: Cyfran y myfyrwyr gradd gyntaf mewn darparwyr AU yng Nghymru y dyfarnwyd pob dosbarth gradd iddynt (ac eithrio graddau diddosbarth), 2016/17 i 2024/25





Data yn Nhabl 14b ar y daenlen gysylltiedig.

Dyfarnwyd gradd anrhydedd dosbarth cyntaf i 29% o fyfyrwyr gradd gyntaf yn 2024/25, cynnydd o ddau bwynt canran o 2023/24, ac ychydig yn uwch na'r gyfran y dyfarnwyd graddau anrhydedd dosbarth cyntaf iddynt cyn pandemig Covid-19.

## Cymwysterau a enillwyd gan fyfyrwyr o Gymru mewn darparwyr AU ledled y DU

### Cynyddodd nifer y cymwysterau a enillwyd gan fyfyrwyr o Gymru a oedd yn astudio yn unrhyw ran o'r DU yn 2024/25

Ffigur 15: Nifer y cymwysterau a enillwyd gan fyfyrwyr o Gymru mewn darparwyr AU ledled y DU yn ôl lefel, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 15 ar y daenlen atodol.

Arweiniodd 31,090 o ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru mewn darparwyr AU ledled y DU at ennill cymhwyster yn 2024/25. Roedd hyn yn gynnydd o 5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn oherwydd cynnydd mewn cymwysterau israddedig, tra bo nifer y cymwysterau ôl-radd a enillwyd yn parhau i ostwng.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

## Ffynhonnell y data

Mae cofnod myfyrwyr HESA wedi cael ei gasglu ers 1994/95 gan ddarparwyr AU sy'n rhan o'r cynllun ar draws gweinyddiaethau datganoledig y Deyrnas Unedig.

Mae Jisc, y mae HESA yn rhan ohono, yn rhoi crynodeb o'r broses casglu data ar wefan HESA, gan gynnwys yr holl reolau ansawdd a ddefnyddir.

Blwyddyn academaidd 2024/25 oedd y drydedd flwyddyn lle defnyddiwyd model a system casglu data newydd ar gyfer Cofnod Myfyrwyr HESA, a gyflwynwyd gan Jisc yn 2022/23. Achoswyd sawl her gan y model newydd, a golygai fod nifer fwy o broblemau'n gysylltiedig ag ansawdd data yn dilyn y newidiadau. Er enghraifft, cynnydd yn nifer y cofnodion anhysbys a gafwyd ar gyfer rhai newidynnau, fel ethnigrwydd a chyfeiriad parhaol.

## Cwmpas

### Darparwyr

Mae'r darparwyr AU Cymru sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn cynnwys darparwyr yng Nghymru a ariennir yn uniongyrchol gan Medr ar gyfer darpariaeth addysg uwch, a darparwyr yng Nghymru sy'n dychwelyd data i HESA ar gyrsiau addysg uwch sydd wedi'u dynodi'n benodol.

Roedd data 2023/24 yn cynnwys data ar gyfer 6 darparydd AU nad oeddent cyn hynny wedi cyflwyno data i gofnod myfyrwyr HESA. Y rhain oedd:

- Canolfan y Dechnoleg Amgen
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg Gwent
- Sefydliad Padarn Sant
- Ysgol Ddiwinyddol yr Undeb

Ni wnaeth Ysgol Ddiwinyddol yr Undeb ond dychwelyd data i gofnod 2023/24 gan nad oedd ganddynt gyrsiau wedi'u dynodi'n benodol yn 2024/25.

### Y boblogaeth ymrestru

Yr ymrestriadau sydd wedi'u cynnwys yw'r rhai sydd wedi'u cynnwys ym mhoblogaeth gofrestru safonol HESA yn narparwyr AU Cymru. Gall myfyriwr gael mwy nag un ymrestriad mewn blwyddyn academaidd, os felly yna cyfrifir pob ymrestriad ar wahân.

I gal eich cynnwys ym mhoblogaeth safonol HESA, mae angen i'r sawl sy'n ymrestru fod yn astudio'n weithredol o leiaf bythefnos ar ôl ei ddyddiad dechrau ymgysylltu neu ben-blwyddi dilynol y dyddiad hwnnw. Mae myfyrwyr sy'n ysgrifennu (ac nad oes ganddynt unrhyw astudiaeth weithredol) ar ôl y dyddiad pen-blwydd hwn wedi'u heithrio o'r boblogaeth, yn ogystal â myfyrwyr y disgwylir iddynt astudio am bythefnos neu lai ac nad ydynt yn cwblhau eu hastudiaethau nac yn ennill cymhwyster. Mae myfyrwyr sy'n cael seibiant, myfyrwyr sy'n

dod ar ymweliad ac ar gynllun cyfnewid o wledydd tramor, a myfyrwyr sy'n astudio eu holl raglen astudio y tu allan i'r DU hefyd wedi'u heithrio.

### Poblogaeth y cymwysedigion

Y boblogaeth a ddefnyddir ar gyfer y data cymwysedigion yw'r boblogaeth a gasglodd HESA ar gyfer Cymwysterau. Mae'r boblogaeth hon yn cynnwys ymrestriadau gan fyfyrwyr sy'n gysylltiedig â dyfarnu cymhwyster addysg uwch yn ystod y flwyddyn academaidd berthnasol. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau a ddyfarnwyd i'r rhai a oedd wedi cymryd saib o'u hastudiaethau, ar ôl i astudiaethau gweithredol ddod i ben, a rhai a oedd yn barod i ysgrifennu am eu gwaith ymchwil.

Ceir rhagor o wybodaeth am y poblogaethau hyn ar gael ar dudalen diffiniadau o fyfyrwyr ar wefan HESA.

## Diffiniadau

### Anabledd

Cesglir gwybodaeth am anabledd yn seiliedig ar hunanasesiad myfyrwyr, ac nid oes rheidrwydd arnynt i roi gwybod am unrhyw anableddau sydd ganddynt. Cesglir yr wybodaeth hon bob blwyddyn felly gallai newid dros amser.

### Ethnigrwydd

Dim ond ar gyfer myfyrwyr y mae eu cyfeiriad parhaol yn y DU, Guernsey, Jersey neu Ynys Manaw cyn dechrau astudio y cesglir gwybodaeth am ethnigrwydd, ac fe'i cesglir ar sail hunanasesiad y myfyriwr. Cesglir yr wybodaeth hon bob blwyddyn felly gallai newid dros amser.

Myfyrwyr o gefndir lleiafrifol ethnig yw'r rhai lle nad yw ethnigrwydd myfyriwr yn 'Wyn' nac yn 'Amherthnasol neu'n anhysbys' yn y newidyn Z_ETHNICGRP2 ar gofnod myfyrwyr HESA. Mae hyn felly'n cynnwys yr holl fyfyrwyr lle mae eu hethnigrwydd yn un o'r categorïau canlynol:

- Asiaidd
- Du
- Cefndiroedd cymysg neu aml-ethnig
- Unrhyw gefndir ethnig arall

### Cyfeiriad parhaol

Defnyddir cyfeiriad parhaol myfyriwr cyn dechrau ei gwrs i benderfynu o ble mae myfyriwr yn dod yn y datganiad hwn.

### Rhyw

Mae cofnod myfyrwyr HESA yn casglu rhyw myfyriwr yn hytrach na'r rhywedd y mae'n uniaethu ag ef.

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r dull swyddogol o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bychain yng Nghymru. Fe'i cynlluniwyd i nodi'r ardaloedd bach

hynny lle mae'r crynoadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae'r ardaloedd bach hyn wedi cael eu rhestru, yn ôl MALIC 2019, a'u grwpio'n ddegraddau. Defnyddir cod post cyfeiriad parhaol myfyriwr cyn dechrau ei astudiaethau i nodi ei gwintel MALIC. Nid yw'r dull hwn o fesur amddifadedd yn seiliedig ar amddifadedd y dysgwr yn benodol. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt eu hunain yn profi amddifadedd yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd, ac fel arall. Nid oes modd priodoli cyfran fechan o ymrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru i gwintel MALIC lle bo gwybodaeth am y cod post yn anghywir, yn anghyflawn neu ar goll.

### Talgrynnu

Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Defnyddir ffigurau heb eu talgrynnu i gyfrifo'r cyfansymiau, ac yna talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae'n bosib felly na fyddant yn hafal i swm y cydrannau.

Cyfrifir canrannau  drwy ddefnyddio'r ffigurau heb eu talgrynnu. Gall hyn olygu na fydd y canrannau o bosib yn cyd-fynd â'r hyn a fyddai'n cael ei gyfrifo o ddefnyddio ffigurau wedi'u talgrynnu.

## Ystadegau cysylltiedig

Ceir hyd i adroddiadau cynharach yn y gyfres hon ar llyw.cymru. Cyn y datganiad sy'n cwmpasu blwyddyn academaidd 2023/24, roedd cyhoeddiadau'r datganiad hwn yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Mae Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol, Awst 2023 i Orffennaf 2024 yn cynnwys gwybodaeth debyg ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gymuned. Mae data ar gyfer Awst 2024 i Orffennaf 2025 i fod i gael eu cyhoeddi armedr.cymru ar 26 Chwefror 2026.

Mae Rhaglenni dysgu prentisiaethau a ddechreuwyd: Chwefror i Ebrill 2025 yn cynnwys dangosfwrdd ac arno ddadansoddiadau manwl o raglenni prentisiaeth a ddechreuwyd. Mae data ar gyfer mis Mai i fis Hydref 2025 i fod i gael eu cyhoeddi ar 19 Chwefror 2026.

## Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harferion ystadegol eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). Mae'r OSR yn gosod y safonau ar gyfer dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer Ystadegau y dylai holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol gadw atynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau, i gynyddu eu dibynadwyedd, eu hansawdd a'u gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Natganiad Cydymffurfiaeth Medr ynghyd â'r Cod Ymarfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol  hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

## Dibynadwyedd

Mae'r ystadegau hyn wedi'u cyhoeddi yn unol â Datganiad Cydymffurfiaeth Medr a'r polisi mynediad at ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

## Ansawdd

Y ffynhonnell ddata ar gyfer y cyhoeddiad hwn yw cofnod Myfyrwyr HESA sy'n casglu data gan ddarparwyr AU. Ceir nifer o brosesau dilysu i sicrhau bod data a gyflwynir i gofnod myfyrwyr HESA yn ddata o ansawdd da. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio'r data yn erbyn rheolau ansawdd a gwiriadau yn erbyn data o flynyddoedd blaenorol. Codir unrhyw broblemau a ganfyddir drwy'r gwiriadau hyn gyda darparwyr fel y gallant naill ai roi esboniad, neu gyflwyno data wedi'u cywiro os oes gwall. Mae hon yn broses ailadroddus lle bydd data'n mynd drwy'r broses droson nes bod yn barod i'w cymeradwyo.

Mae Medr hefyd yn cyfarfod â darparwyr drwy gydol y flwyddyn i gael dealltwriaeth o unrhyw broblemau ansawdd data a allai godi i ddarparwyr unigol ac i roi cefnogaeth er mwyn datrys y problemau.

## Gwerth

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i roi cipolwg o nifer y bobl o Gymru sy'n astudio mewn darparwyr AU ledled y DU ac o nifer y myfyrwyr sy'n astudio mewn darparwyr AU yng Nghymru. Fe'u defnyddir o fewn Medr a Llywodraeth Cymru i fonitro tueddiadau addysgol, ac fel llinell sylfaen i ddadansoddi'r data sydd wrth wraidd yr ystadegau hynny ymhellach. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- Swyddogion ac aelodau Bwrdd Medr
- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn y Senedd
- Swyddogion yn Llywodraeth Cymru
- Darparwyr Addysg Uwch a chyrff cynrychioliadol

Mae hyn yn creu mynediad rhwydd at ddata o gofnod myfyrwyr HESA sy'n benodol i Gymru, a hefyd yn peri bod yr wybodaeth ar gael yn Gymraeg.

## Newid statws ystadegau achrededig

Cyhoeddwyd yr ystadegau hyn yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru fel Ystadegau Gwladol (a elwir bellach yn Ystadegau Swyddogol Achrededig). Gan fod yr ystadegau bellach yn cael eu cyhoeddi gan sefydliad newydd, mae'r statws Ystadegau Swyddogol Achrededig wedi'i ddileu dros dro.

Mae ystadegwyr sy'n cynhyrchu rhai o ystadegau swyddogol eraill Medr yn cynnwys ystadegwyr fu gynt yn cynhyrchu ystadegau swyddogol am addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gymuned yn Llywodraeth Cymru. Mae Medr hefyd wedi gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a gynhyrchodd y cyhoeddiad hwn yn flaenorol i sicrhau parhad drwy ofyn iddynt rannu eu profiadau.

Bydd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) yn asesu'r prosesau sydd ar waith ym Medr fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol. Mae'r OSR ar ganol asesu a yw'r ystadegau hyn yn bodloni'r gofynion ar gyfer Ystadegau Swyddogol Achrededig.

## Gwybodaeth Gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir anfon adborth, cwestiynau, a cheisiadau am ddata pellach drwy e-bost i: YstadegauAU@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**